## Gweddi

Gogoniant fo i ti, O Dad hollalluog: ar y dydd sanctaidd hwn cyfodaist dy Fab o blith y meirw a'n gwneud ninnau yn gyfrannog o'i fuddugoliaeth ar bechod a marwolaeth. Gogoniant fo i ti, O Arglwydd Iesu Grist: trwy dy aberth a'th atgyfodiad, trechaist angau ac agor i ni byrth y bywyd tragwyddol. Gogoniant fo i ti, O Ysbryd Glân: yr wyt yn ein harwain i'r holl wirionedd.

Cydnabyddwn, Arglwydd, nad ydym yn deilwng o'th ras achubol. Hwyrfrydig ydym, fel dy ddisgyblion gynt, i gredu'r dystiolaeth am y bedd gwag. Araf yw ein calonnau, fel y ddau ar eu ffordd i Emaus, i gredu'r hyn a lefarwyd gan y proffwydi. Fel Thomas, fe fynnwn ninnau weld â'n llygaid ôl yr hoelion. Trugarha wrthym, O Dduw. Dwg ni o garcharau ein hanghrediniaeth i ryddid gorfoleddus dy blant, sydd heddiw ym mhedwar ban y byd. Yn uno gyda holl dyrfa'r nef i lawenhau yn yr enw sydd goruwch pob enw, ac sy'n cyffesu bod Iesu Grist yn Arglwydd.

Bywha dy Eglwys, O Arglwydd, â grym yr atgyfodiad, a boed i bobl ym mhob man gael eu meddiannu gan y bywyd newydd ac anorchfygol a ddatguddiwyd ar y trydydd dydd. I ti, Dad y Mab ac Ysbryd Glân, y bo'r mawl a'r gogoniant heddiw ac yn oes oesoedd. Amen.

***Llyfr Gwasanaeth Undeb yr Annibynwyr Cymraeg***